

Enw'r Ymgeisydd	Rhif y Ganolfan	Rhif yr Ymgeisydd

CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD



WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

ENTRY LEVEL CERTIFICATE

717/51

**Tystysgrif Lefel Mynediad**

**ASTUDIAETHAU CERBYDAU MODUR A DEFNYDDWYR FFYRDD**

**ADDYSG TRAFNIDIAETH (CERBYDAU DWY OLWYN)**

P.M. DYDD IAU, 30 Mawrth 2006

(15 munud)

**Arholwr yn unig**

<b>Cyfanswm y marciau</b>	
---------------------------	--

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol yn y llyfryn hwn.

Os nad ydych chi'n gallu darllen y cwestiwn, codwch eich llaw a bydd yr athro/athrawes yn ei ddarllen i chi.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Rhoddir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

1. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Mae'r **tacomedr** yn nodi pa mor gyflym mae peiriant yn troi.”

Ateb ..... [1]

2. Mae ceblau brêc beic modur/moped wedi eu gwneud o sawl llinyn (*strands*). Pam mae hyn?

(a) I ganiatáu iddyn nhw gael eu dirwyn (*threaded*) yn haws i mewn i'r cebl allanol.

(b) Mae hyn yn gwneud y ceblau'n rhatach i'w cynhyrchu.

(c) Mae'n rhoi hyblygrwydd (*flexibility*).

Ateb ..... [1]

3. Os yw 5 milltir = 8 cilometr ac os yw beic modur/moped yn teithio 55 milltir y galwyn, sawl cilometr y bydd e'n teithio ar 3 galwyn?

(a) 254 cilometr.

(b) 264 cilometr.

(c) 274 cilometr.

Ateb ..... [1]

4. Pryd dylai switsh prif gyflenwad (*mains switch*) **gwefrydd batri** (*battery charger*) gael ei droi ymlaen?

(a) Cyn i'r batri gael ei gysylltu.

(b) Wrth i'r batri gael ei gysylltu.

(c) Ar ôl i'r batri gael ei gysylltu.

Ateb ..... [1]

5. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Caiff **corn** ei ffitio ar feic modur/moped i rybuddio defnyddwyr eraill eich bod chi'n nesáu.”

Ateb ..... [1]

6. Pa lythrennau sydd i'w gweld ar fwlb golau **cyfeiriwr** (*indicator*) beic modur/moped?

(a) 12V 40/50W.

(b) 12V/21W.

(c) 12V 5/21W.

Ateb ..... [1]

7. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Dylid archwilio olwynion beic modur/moped yn gyson am fwclo a tholcio (*buckles and dents*).”

Ateb ..... [1]

8. Edrychwch ar y darlun isod ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.



Beth yw'r gydran sydd i'w gweld?

(a) Pwmp tanwydd.

(b) Prif silindr.

(c) Coil tanio (*ignition*).

Ateb ..... [1]

9. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Dylech ddefnyddio gefelen drwyn crwn (*round-nose pliers*) i symud plwg tanio o beiriant beic modur/moped.”

Ateb ..... [1]

10. Edrychwch ar y darlun isod ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.



Pa gydran sydd i'w gweld yn y darlun?

- (a) Con-rod.
- (b) Piston.
- (c) Crancsiafft.

Ateb ..... [1]

11. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Pan fyddwch chi'n gadael eich beic modur/moped am unrhyw gyfnod o amser dylech chi bob amser adael yr allweddi yn y taniwr (*ignition*) rhag ofn bod angen ei symud.”

Ateb ..... [1]

12. Pa liw yw'r golau stopio ar feic modur/moped?

- (a) Coch.
- (b) Ambr.
- (c) Glas.

Ateb ..... [1]

13. Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Niwmatig a chebl yw'r ddau ddull o gysylltu'r lifer-brêc blaen i frêc blaen beic modur/moped.”

Ateb ..... [1]

14. Wrth reidio beic modur/moped heibio i gerbyd sy'n llonydd (*stationary*), beth yw'r peth olaf y dylech chi ei wneud cyn manwfro?


(a) Rhoi arwydd i'r dde.

(b) Bwrw golwg 'achub bywyd' dros yr ysgwydd (*lifesaver rear-observation*).

(c) Rhoi arwydd i'r chwith.

Ateb ..... [1]

15. Edrychwch ar y darlun isod ac yna atebwch y cwestiwn sy'n dilyn.



Ydy'r frawddeg ganlynol yn **GYWIR** neu'n **ANGHYWIR**?

“Mae'r darlun yn dangos olwyn aloi a theiar perfformiad uchel.”

Ateb ..... [1]